

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.09.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, David Griffiths, Malcolm Hills, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.07.17 fel rhai cywir.  
**Cynnig** – Kevin Goodchild    **Eilio** – Huw Davies    **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.07.17):**
  - a) David Griffiths a Malcolm Hills – y ddau aelod newydd a gafodd eu cyfethol i'r seddi gweigion achlysurol, wedi derbyn copi o Côt Ymddygiad y Cyngor Cymuned ac wedi arwyddo "Datganiad Derbyn Swydd".
  - b) Trafodwyd fod angen cyfethol un aelod newydd arall i lenwi'r sedd wag achlysurol olaf ar y Cyngor Cymuned. John Griffiths wedi dangos diddordeb i gael ei gyfethol, pawb yn gytûn i'w gyfethol a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf - **Cynnig:** Geraint Edwards    **Eilio:** Kevin Goodchild.
  - c) Prisiau wedi eu derbyn gan G L Jones am offer i'r cae chwarae  
**Penderfyniad** → cysylltu hefo Sion Bryn, Swyddog Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Gwynedd, eto i weld os ydynt yn fodlon cyfrannu tuag at y gost yma.
  - d) Diolch i Huw Davies am roi'r arwydd gydag enw'r Cyngor Cymuned i fyny ar yr hysbysfwrdd newydd yn Llwyngwril.
5. **Gohebiaeth:**
  - a) **Dail Dysynni** – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y cyfraniad ariannol o £50.00 gan y Cyngor Cymuned.
  - b) **Cyngor Gwynedd** – Rhaglen waith Mis Medi 2017 wedi ei derbyn.
  - c) **Cyngor Gwynedd** - Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril – cadarnhad y bydd y cynllun presennol yn parhau ar gyfer 2018 - 19. Bydd y swm y cyfraniadau yn aros yr un faint ag eleni = £2,000.00.
  - d) **Un Llais Cymru**
    - Agenda'r cyfarfod nesaf - 26.09.17
    - Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 21.06.17
    - Gwybodaeth am sesiynau hyfforddiant Gogledd Cymru – Amserlen Medi - Rhagfyr 2017.
  - e) **Yswiriant gyda AON** – ni fydd AON yn cynnig telerau adnewyddu yswiriant y Cyngor Cymuned Mis Mehefin nesaf – 02.06.18, gan eu bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y farchnad cynghorau lleol. Fodd bynnag, maent wedi trefnu brocer arall sef BHIB i gynnig telerau adnewyddu yswiriant i'r cyngor cymuned.
  - f) **Yswiriant gyda BHIB** – gwybodaeth wedi ei dderbyn gan BHIB Ltd.
  - g) **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** –
    - Diweddarau Manylion Cyswllt → ffurflen wedi'i chyflawni i'w dychwelyd.
    - Nosweithiau gyda'r Parc a'r Cynghorau Tref/Chymuned – canlyniadau'r cyfarfodydd ym Mis Mehefin 2017.
    - Cynllun Datblygu Lleol Eryri - gwybodaeth ddiweddaraf gan y Parc.
  - h) **Problem parcio ceir yn Llwyngwril** – llythyr wedi ei dderbyn gan Debbie Ashton, yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi ei chais i Gyngor Gwynedd i "ehangu'r maes parcio ger Bod Idris yn Llwyngwril". Cafodd y mater yma ei drafod yn fanwl a chafodd ystyriaeth ei roi i'w chais. 'Roedd pawb yn cytuno fod yna broblem gyda pharcio yn y pentref, ond hefyd 'roedd pawb yn gytun y dylai'r meysydd parcio presennol gael ei rheoli'n well.  
**Penderfyniad** → llythyr i'w yrru i Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at y broblem yma, a gofyn a oes modd iddynt edrych i mewn i efallai weithredu system lle byddai'r meysydd parcio yn Llwyngwril yn cael eu rheoli'n well.

6. **Materion Cynllunio:** Dim wedi eu derbyn.

7. **Adroddiad Ariannol:** Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.

Derbyniwyd Adroddiad Mis Gorffennaf ag Awst 2017 yn gywir.

**Cynnig** – Ian Williams    **Eilio** – Kevin Goodchild    **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- a) **Praesept 2017-18** – manylion taliad am £3,900.00 - i'w dalu i gyfrif y Cyngor Cymuned ar 31.08.17.
- b) **Gorchymyn Banc** – cadarnhad wedi ei dderbyn gan Banc HSBC fod y "Mandate" wedi ei adnewyddu. Aelodau fydd yn gallu arwyddo sieciau = Huw Davies, Ian Williams, Geraint Edwards, Kevin Goodchild, Keith Carroll a Glenda Edwards (Clerc). Bydd rhaid cae tri arwydd ar bob siec = y clerch a dau Gynghorydd.
- c) **Anfoneb gan Gyngor Gwynedd** – costau etholiad Mis Mai 2017 = £137.00 → siec i'w anfon i Gyngor Gwynedd.
- d) **Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31.03.2017 – wedi ei gwblhau gan Archwilwyr BDO**
  - **Ffurflen Flynyddol 31.03.17** - wedi ei chyflwyno i'r cyngor, ac wedi cael ei chymeradwyo a'i derbyn gan y Cyngor Cymuned.
  - **Adroddiad Materion yn codi** – wedi ei chyflwyno i'r cyngor. Un mater wedi ei nodi = dylai'r clerch sicrhau bod y P60 yn cofnodi'r cyflog crynswth a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ac nid y gyflog net.
  - **Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad** → i gael ei arddangos ar yr hysbysfwrdd Llwyngwrlil a Rhoslefain ac ar y wefan am 14 diwrnod.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- **Materion Cymunedol**
  - a) **Bin Baw Cwn** - ger y groesfan ar Lwybr y Perthi, Llwyngwrlil - mae'r polyn wedi pydru ac angen sylw.
  - b) **Golau Stryd** - ger y bont yn Llwyngwrlil - golau ddim yn dod ymlaen - ? bwlb angen ei adnewyddu.
  - c) **Arwydd "Ysgol"** - ger yr Eglwys yn Llwyngwrlil (rhwyng y fynwent a Tŷ Gwyn) - oes angen yr arwydd yma? **Penderfyniad** → cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o'r materion yma.
- **Cae Chwarae, Llwyngwrlil** – Japanese Knotweed a thyrchod yn y cae chwarae .....  
→ trafod pan fydd Geraint Micah yn bresennol.
- **Canghennau angen eu torri yn y Cae Chwarae** → David, Huw a Geraint yn cynnig gwneud y gwaith yma.
- **Goleuadau i'r Coed Nadolig** – Keith Carroll wedi cynnig ceisio cael goleuadau LED, i weld os y byddent yn addas i'r Coed Nadolig → Trafod ymhellach cyn y Nadolig.
- **Ail-leoli'r fainc yn Rhoslefain** → trefnu i symud y fainc pan fydd y Goeden Nadolig yn cael ei gosod yna.
- **Meinciau angen eu paentio** → Keith Carroll wedi cynnig gwneud y gwaith yma.  
Keith i archebu varnish â'r anfoneb i'w yrru i'r Cyngor Cymuned.
- **Arwydd Mynwent y Crynwyr** → arwydd wedi pydru, felly wedi ei dynnu i lawr a'i roi ochr fewn wal y Fynwent.
- **Wal o amgylch y Cof Golofn angen sylw** → Keith Carroll yn cynnig gwneud y gwaith yma cyn 11.11.17.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 11.10.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan**

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd .....** **Dyddiad .....**